**ANECS 1**

**ADOLYGIAD POLISI DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW**

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR neu MRP) ac mae'r swm sy'n ddyledus yn cael ei alw'n Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC neu CFR)..

2. Er y disgrifir y GCC fel "dyled" nid oes dyled allanol o reidrwydd wedi ei gymryd – benthyca'n fewnol wna Cyngor Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd erbyn hyn.

3. Nod cyffredinol Canllaw gan Lywodraeth Cymru (LlC) a gyhoeddwyd yn 2018 yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

4. Mae Canllaw LlC yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLlR yn flynyddol cyn cychwyn y flwyddyn ariannol ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLlR:

| **Dull** | **Dadansoddiad** |
|---|---|
| Balans Gostyngol | • darpariaeth mwyaf yn y blynyddoedd cyntaf<br>• cymryd cannoedd o flynyddoedd i glirio'r ddyled yn llawn. |
| Llinol | • dyddiad penodol pryd bydd y ddyled wedi ei chlirio<br>• swm dyledus wedi ei glirio dros gyfnod llawr iawn llai – uchafswm o 50 mlynedd yn unol â'r canllawiau. |
| Blwydd-dal (Annuity) | • cymryd i ystyriaeth gwerth arian dros amser – h.y. bydd talu £1mil mewn 10 mlynedd yn llai o faich na'i dalu rŵan. Ond mae'n parhau i roi mwy o bwysau ar genedlaethau'r dyfodol<br>• dyddiad penodol pryd bydd y ddyled wedi ei chlirio |

5. Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud DLlR ar sail y dulliau canlynol. Mae benthyca a gefnogir ar sail 4% o'r balans gostyngol sy'n cydfynd efo'r rheoliadau blaenorol mewn lle ers 31/03/2008 ac yn cynnwys "addasiad A" of £1.9m. O ran benthyca darbodus heb gefnogaeth mae ar sail llinol dros hyd oes yr ased perthnasol.

6. Yn dilyn asesiad gan ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, argymhellwyd bod angen adolygu yr elfen gyda chefnogaeth o'r polisi DLlR yn y Datganiad.

7. Ystryrir y dull llinol y mwyaf addas o ran balans rhwng cenedlaethau cyfredol a'r dyfodol. Bydd taenu'r ad-daliadau dyled yn fwy hafal dros y cenedlaethau sy'n cael budd o'r asedau yn cael yr effaith o leihau anghenion darpariaeth dyled yn y tymor byr i'r tymor canolig.

8. Mae'r polisi cyfredol (a gymeradwywyd ym Mawrth 2022) yn golygu y codir 4% ar y balans sy'n lleihau'n flynyddol a bydd yn cymryd 345 o flynyddoedd i leihau'r balans cyfredol i lai na £100.


9. Argymhellir defnyddio dull mwy darbodus a fydd yn clirio'r ddyled GCC mewn llai o flynyddoedd, ond yn cynnig arbedion am y blynyddoedd cyntaf.

10. Argymhellir newid y polisi i un ble caiff y DLlR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau cyfalaf mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r benthyciad gael ei ddefnyddio. Yn ôl y Canllaw, caiff DLlR ei godi dros hyd at 50 mlynedd a gellir defnyddio'r dull llinol. Yn unol ag ysbryd y rheoliadau oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, ymgorfforir "Addasiad A" o £1.9m.

11. O newid y polisi i un dull llinol dros 50 mlynedd mae'r lleihad yn y taliadau am y 10 mlynedd cyntaf o 2023/24 dros £16miliwn ( ar sail balans y GCC ar 31 Mawrth 2022). Ceir yr arbediad mwyaf yn y flwyddyn gyntaf ac yna mae'n raddol leihau. Yn y tymor canolig mae arbedion yn cael eu cynnig tra dros hyd cymhariaeth y ddau bolisi mae'r effaith newid polisi yn gost niwtral h.y. ailbroffilio yr ad-daliadau a wneir.

12. Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith newid y polisi hyd blwyddyn ariannol 2032/33, gyda'r graff isod yn ei arddangos hyd at y flwyddyn 2083.

| | Blwyddyn | Polisi Cyfredol<br><br>Gyda chefnogaeth<br><br>£ | Llinol 50 bl o 2024<br><br>Gyda chefnogaeth<br><br>£ | Arbedion / (cost)<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **46,771,427** | **29,994,889** | **16,776,538** |
| | 2023 | 5,171,533 | 5,171,533 | - |
| 1 | 2024 | 4,964,671 | 2,482,336 | 2,482,336 |
| 2 | 2025 | 4,766,084 | 2,482,336 | 2,283,749 |
| 3 | 2026 | 4,575,441 | 2,482,336 | 2,093,105 |
| 4 | 2027 | 4,392,423 | 2,482,336 | 1,910,088 |
| 5 | 2028 | 4,216,726 | 2,482,336 | 1,734,391 |
| 6 | 2029 | 4,048,057 | 2,482,336 | 1,565,722 |
| 7 | 2030 | 3,886,135 | 2,482,336 | 1,403,799 |
| 8 | 2031 | 3,730,690 | 2,482,336 | 1,248,354 |
| 9 | 2032 | 3,581,462 | 2,482,336 | 1,099,126 |
| 10 | 2033 | 3,438,204 | 2,482,336 | 955,868 |


Effaith newid polisi DLlR o 2023/24 ymlaen
£6,000,000
£5,000,000
£4,000,000
£3,000,000
£2,000,000
£1,000,000
£0
Polisi Cyfredol (£)
Llinell syth 50 mlynedd (£)

---------------------------